# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle




# Crynodeb (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **15** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Lleu a Nantlle.

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 10 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 8 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 8 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 6 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 6 |
| Cynnyrch, busnesau a siopau lleol | 5 |
| Gwirfoddolwyr | 4 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 4 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, gardd wyllt | 3 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 3 |
| Datblygiad y Ganolfan Iechyd a Lles | 3 |
| Cysylltiadau priffyrdd da | 3 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 3 |
| Gweithgareddau hamdden awyr agored | 1 |
| Ardal ddiogel a saff | 1 |
| Aer glan / dim llygredd | 1 |
| Cae chwarae i blant | 1 |
| Darpariaeth tai | 1 |
| Cefnogaeth i siopau lleol | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 9 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 9 |
| Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 9 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal | 9 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 7 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 7 |
| Diffyg cyd-weithio rhwng mudiadau / mentrau lleol | 4 |
| Dim man ymgynnull / hwb cymunedol | 4 |
| Pryderon am ddarpariaeth addysg / cau ysgolion | 4 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 4 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 4 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 3 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir | 3 |
| Cyflwr gwael tai | 3 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 3 |
| Diffyg cipiasit / darpariaeth / awch yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl newydd i fod yn arwain Cynghorau Cymuned a grwpiau | 2 |
| Toriadau / dirywiad i wasanaethau Cyngor Gwynedd | 2 |
| Prinder tai o safon i'w rhentu | 2 |
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 2 |
| Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol | 2 |
| Band eang / cysylltiad we wael | 2 |
| Tlodi a thlodi tanwydd | 2 |
| Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel | 1 |
| Unigedd | 1 |
| Llifogydd | 1 |
| Llygredd amgylcheddol | 1 |
| Cymunedau o dan bwysau oherwydd mewnfudwyr | 1 |
| Stoc dai yn hen | 1 |
| Coed yn marw | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 9 |
| Rhagor o adnoddau iechyd, gofal a llesiant | 9 |
| Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 8 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 7 |
| Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. rhwng mudiadau, mentrau, Cynghorau Cymuned er lles trigolion yr ardal | 6 |
| Mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol ffynnu yn yr ardal | 6 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 6 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | 5 |
| Rhagor o ddarpariaeth i gyfleusterau hamdden / chwaraeon | 4 |
| Hwb cymorth / gwybodaeth ganolog | 4 |
| Angen twristiaeth ac uchafu potensial economaidd ymwelwyr | 4 |
| Mwy o gyfathrebu rhwng Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd | 3 |
| Adnodd cymunedol i ddod a phobl at ei gilydd e.e. Ardal tyfu, Tafarn, dosbarthiadau oedolion yn yr Ysgol | 3 |
| Adolygu gweledigaeth addysg yn yr ardal | 2 |
| Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymunedau e.e. ymuno â Phwyllgorau | 2 |
| Cynllun i ddanfon presgripsiwn / bwyd parhaol | 2 |
| Mwy anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu | 2 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 2 |
| Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi | 2 |
| Cymunedau sy'n barod ar gyfer newid hinsawdd e.e. llifogydd | 1 |
| Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus | 1 |
| Cymorth i leihau tlodi tanwydd | 1 |
| Cymuned i weithio er mwyn atal taflu sbwriel | 1 |
| Gwelliannau amgylcheddol e.e. plannu coed | 1 |
| Ystyried datblygu mynyddoedd eraill heb law y Wyddfa ar gyfer ymwelwyr | 1 |
| Gwella'r rhwydwaith ffyrdd | 1 |
| Angen bod yn ymwybodol o statws UNESCO cyn datblygu lleol | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?**

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Lleu a Nantlle :

- Cyngor Gwynedd
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Dyffryn Nantlle
- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Bwrdd Iechyd
- Asiantaethau Tai - Grwp Cynefin / ADRA
- Grwpiau a Mudiadau Cymunedol
- Menter Ty'n Llan
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Clybiau chwaraeon
- Gwasanaethau cymorth lleol
- Cyflogwyr lleol a newydd
- NFU
- Colegau Lleol
- Canolfan y Fron
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Menter Môn
- Siop Griffiths
- Antur Nantlle
- Y Bont
- Ysgolion Cynradd
- Nantlle Vale
- Canolfannau Cymunedol
- Y gymuned
- Clybiau Celfyddydol
- Trafnidiaeth Cymru
- Twristiaeth Cymru
- Cymdeithas Trigolion Fron
- Prosiect Loteri Treftadaeth Llechi

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Lleu a Nantlle:

- Strategaeth Bro Lleu
- Menter Ty'n Llan wedi cynnal ymgynghoriad lleol fel rhan o brosiect Ty'n Llan.
- Sgyrsiau ynglŷn a potensial i greu economi gwyrdd lleol yn sgil cau ffatri Northwood.
- Ymgynghoriad Grŵp Cynefin – Canolfan Iechyd
- Ymgynghoriad Pwyllgor Neuadd Goffa Llanllyfni fel rhan o gynllun uwchraddio'r neuadd

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Bro Lleu a Nantlle:**

- Roedd nifer o sylwadau yn cyfeirio at **Strategaeth Bro Lleu** sydd yn weithredol o fewn yr ardal. Roedd awch fod y gwaith Ardal Ni yn bwydo i mewn i hwn mewn rhyw ffordd, ac nid

yn ei ddyblygu. Roedd teimlad hefyd bod angen cyfathrebu’r Strategaeth yn well ac annog cydweithio rhwng y mudiadau a grwpiau lleol.

- Mae pentrefi Nebo a Nasareth yn cynnwys oddeutu 125 dai gyda thua 250 o drigolion. Ar wahân i Sgwâr Nebo, mae eiddo yn aml yn ynysig heb unrhyw gymdogion agos. Mae'r ddemograffig yn tueddu i fod tua 50+. Mae ein sylwadau yn adlewyrchu'r heriau sy'n ein hwynebu yn byw mewn cymuned wledig iawn, lle mae rhai preswylwyr yn lleisio pryderon bod y pentrefi wedi'u gadael ar ôl.
- Angen i Gyngor Gwynedd i weithredu yn hytrach na chynnal ymgynghoriad ar ôl ymgynghoriad a chyrraedd unman. Angen bod yn glir o ffynonellau ariannu ar gyfer y prosiect hwn a'u heffaith ar wasanaethau cyfredol.
- Teimlo nad ydi Cyngor Gwynedd yn rhoi digon o gyfleodd i gynghorau cymuned i roi mewnbwn i mewn i benderfyniadau strategaethol sy'n effeithio ar gymunedau, Angen newid y sefyllfa yma. Disgwyl i Gynghorau Gymuned dderbyn lot mwy o gyfrifoldeb yn y blynyddoedd diwethaf, ac angen cofio mai gwirfoddolwyr ydi'r cynghorau cymuned.